1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

17 Gorffennaf 2007

Darpar Benaethiaid yn cael hyfforddiant gwell

Mae rhaglen hyfforddi ar gyfer darpar benaethiaid wedi cael ei gwella, ond mae angen iddi ddarparu mwy o gyfleoedd o hyd i ddatblygu syniadau strategol.

Mae adroddiad a lansiwyd heddiw gan Estyn yn ystyried pa mor dda y mae'r rhaglen hyfforddi – y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) – yn paratoi cyfranogwyr ar gyfer dod yn bennaeth.

Cyflwynwyd y rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym 1997, ac fe'i diwygiwyd yn ddiweddar yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid yng Nghymru. Yn sgil y newidiadau, mae cyfranogwyr bellach yn canolbwyntio mwy ar y medrau a'r cymwyseddau sydd eu hangen arnynt i lwyddo fel penaethiaid.

Mae Estyn yn adrodd bod ansawdd cyffredinol y rhaglen hyfforddi yn dda gyda rhai diffygion. Mae pob hyfforddwr CPCP wedi'u paratoi'n dda ac yn meddu ar wybodaeth a phrofiad arbenigol mewn arweinyddiaeth a rheolaeth.

Fodd bynnag, mae Estyn yn argymell y dylid rhoi mwy o gyfleoedd i gyfranogwyr feddwl yn strategol a datblygu eu gweledigaeth eu hunain, yng nghyd-destun polisi a blaenoriaethau Cymreig.

Dywed Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: "Mae'n bwysig bod gan ddarpar benaethiaid ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau strategol cenedlaethol er mwyn datblygu eu gallu i ystyried y materion ehangach sydd eu hangen yn rôl pennaeth".

Nid oes hyfforddiant diweddaru na darpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer y rheiny nad ydynt yn cael swydd pennaeth ymhen tair blynedd. Yn ogystal, mae cyfranogwyr yn aros yn rhy hir i gael gwybod a ydynt wedi llwyddo yn eu CPCP, ac efallai na fydd penaethiaid dros dro yn cael cyfle i ymgeisio am swyddi yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae Estyn yn argymell y dylai'r Cynulliad wneud yn siwr bod cyfranogwyr yn cael gwybod ar unwaith pan fyddant wedi ennill eu CPCP a sefydlu rhaglen hyfforddiant diweddaru ar gyfer y rheiny nad ydynt yn cael swydd pennaeth ymhen tair blynedd.

Mae argymhellion eraill yn cynnwys gwneud yn siŵr bod deunyddiau cwrs yn cael eu llunio mewn pryd, gan fod rhai deunyddiau wedi bod yn hwyr yn y gorffennol, a bod cyfleusterau yn cael eu sefydlu i alluogi cyfranogwyr i rwydweithio yn ystod y rhaglen.

Dylai penaethiaid roi cyfle i gyfranogwyr CPCP brofi ystod lawn o gyfrifoldebau rheoli yn eu hysgol, yn enwedig rheolaeth ariannol a chyllideb.

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir neu a ariennir gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, system cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau addysg lleol (AALlau), addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau Gyrfa Cymru ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464